Eisteddfod Y Fenni 2008

Cafwyd eisteddfod fywiog yn Y Fenni ddydd Sadwrn diwethaf. Cynhaliwyd cystadlaethau i blant trwy'r dydd yn neuadd yr ysgol gyfun leol, Ysgol Brenin Harri'r V111. Yng Nghapel y Methodistiaid Y Fenni oedd rhagbrofion yr oedolion, oedd yn agored i bawb yn rhad ac am ddim, a'r cystadlaethau terfynol o flaen cynulleidfa frwdfrydig yn Theatr y Bwrdeisdref.

Gwahoddwyd y pedwar cystadleuydd gorau ymhlith disgyblion uwchradd y prynhawn i berfformio gyda'r nos ar lwyfan y Theatr. I rai, dyma oedd uchafbwynt y dydd, y cyfle i weld sêr y dyfodol yn ymarfer eu crefft cyn iddynt ddod yn enwog ar lwyfannau mwy. Y goreuon eleni oedd y pianydd ifanc Georgina Jones; y canwr Christian Morse, gyda chân o sioe gerdd, Sam Ellis ar y ffidil a Sam eto gydag Elis a Bethan Reed yn chwarae trefniant jazz gwreiddiol o "On the Sunny Side of the Street".

Mae Eisteddfod Y Fenni yn dibynnu ar fyddin o wirfoddolwyr a noddwyr i wneud y gwaith o drefnu – a thalu amdani – bob blwyddyn, ac yn croesawu gwirfoddolwyr a noddwyr newydd yn gynnes iawn. Eleni cafwyd nawdd hael gan nifer o gymdeithasau Cymreig a Chymraeg yr ardal, yn cynnwys Cymdeithas y Cymreigyddion, Cymdeithas Gwenynen Gwent, Newyddion Gwent a'r fenter iaith newydd, Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy.

Beirniaid y noson oedd y soprano Suzanne Murphy a'r arweinydd Alun John, yn beirniadu'r cystadlaethau cerddorol, y bardd Robat Powell yn beirniadu'r gwaith llên, a'r nofelydd Jane Blank yn feirniad y llefaru. Canmolodd Suzanne Murphy safon y cystadlu, gan dynnu sylw at dechneg arbennig a thôn glir llais enillydd Her Unawd Clwb Rotari'r Fenni, y soprano Anne Wilkins o Benybont-ar-Ogwr.

Cafodd dau ffliwtydd ifanc, Luke Russell a Catherine White, ganmoliaeth uchel hefyd. "Mae eu *rapport* nhw mor dda" meddai "Alun John "fel na allwch chi ddim dirnad pwy sy'n chwarae pa ran, a mae'r effaith yn gyfareddol, yn agos at berffeithrwydd". O Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru y daeth Luke a Catherine, fel nifer fawr o'r cystadleuwyr ifanc talentog, yn cynnwys Osian Gwynn o Lanelli, enillydd yr Unawd dan 25.

Nid y perfformwyr yn unig oedd yn haeddu canmoliaeth. Cyfeiriodd yr arweinydd, Richard Davies, a'r beirniaid sawl gwaith at sgiliau di-gyffelyb y ddau gyfeilydd, Jeanette Massocchi a James Joseph o'r siop gerdd leol Abergavenny Music. Bu'r ddau wrthi drwy'r dydd, yn ystod y rhagbrofion a'r cystadlaethau, a'r cystadleuydd olaf am 10.30 y nos yn cael yr un gofal â'r cyntaf yn y bore.

Gwahoddwyd enillwyr y cystadlaethau llenyddol i'r llwyfan yn ystod y noson, i dderbyn eu gwobrau. Yn eu plith roedd Margaret Jones-Robinson o Gilwern, a ennillodd wobr y Dysgwyr am ei cherdd am Y Dosbarth Cymraeg. Ymhlith y cystadleuwyr llwyddiannus eraill roedd J Williams o Abergwaun a T Graham Williams o Gwm Tawe, cyntaf ac ail gyda'r traethawd ar y pwnc *Eisteddfod Y Fenni 2020?*

Cynhelir Eisteddfod Y Fenni ar 20 Mehefin flwyddyn nesaf, a bydd mwy o fanylion ar y wefan yn nes at yr amser, sef www.eisteddfodyfenni.co.uk